| Teitl y gweithdy | Crynodeb | Cyflwynydd/Cyflwynwyr | Ystafell |
|---|---|---|---|
| | | **Y Bore** | |
| Meddwl am genedlaethau'r dyfodol mewn byd o ansicrwydd | | Petranka Malcheva | Ystafell A |
| Rôl Swyddog Cyllid wrth Gyflawni Sero Net | Bydd cydweithwyr ledled Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a thîm Gwasanaeth Ynni Cymru yn rhoi eu safbwyntiau a'u barn o ran y parodrwydd ar gyfer sero net ledled y sector cyhoeddus a'r hyn y mae'n ei olygu i chi fel gweithiwr cyllid proffesiynol. | Chris Pugh / Sian Davies / Rhys Horan / Jane Forshaw / Victoria Camp / Kate Havard / Jenny Lloyd | Ystafell B |
| Diwygio'r Senedd – cynigion, risgiau a chyfleoedd | Cyflwyniad i gynigion i ddiwygio'r Senedd, gan gynnwys disgrifiad o'r y gwahanol gyfranogwyr dan sylw, a llinell amser lefel uchel.<br><br>Bydd y sesiwn yn annog cyfranogwyr i feddwl am y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r cynigion, a'r goblygiadau a allai | Alun Davidson | Ystafell C |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | godi i'w sefydliadau o'r diwygiadau arfaethedig. | | |
| Storm berffaith: heriau a chyfleoedd ar gyfer arian a gwasanaethau cyhoeddus | Beth mae’r darlun mawr yn ei olygu yn ymarferol ar gyfer dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau a rôl gweithwyr cyllid proffesiynol yn y dyfodol? | Mark Jeffs / Chris Bolton / Auriol Miller / Jarlath Costello / Andrew Jeffreys | Ystafell L |
| Mae twyll ac ystryw yn galw am eich Arian | Bydd ymchwilwyr troseddau ariannol arbenigol yr heddlu yn rhoi trosolwg o sefyllfa twyll a throsedd economaidd o ran gweithwyr proffesiynol cyfrifeg, yr hyn y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohono a sut i sicrhau nad ydych chi na’ch sefydliad yn dod yn ystadegyn. | Mark Egan / Peter Matthews | Ystafell K |
| **Y Prynhawn** | | | |
| Beth mae’n ei gymryd i ddod yn arweinydd? | Bydd Anne Louise Clark yn hwyluso trafodaeth gan rai o brif arweinwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru ar hynt eu gyrfaoedd a pha awgrymiadau da sydd ganddynt ar gyfer ein harweinwyr cyllid yn y dyfodol. | Tim Moss / Rhys Thomas / Anne-Louise Clark | Ystafell A |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwysigrwydd moeseg ar gyfer gweithwyr cyllid proffesiynol yn y sector cyhoeddus | Bydd Oliver Simms o Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn arwain gweithdy rhyngweithiol ar foeseg ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes cyllid y sector cyhoeddus. Bydd y sesiwn yn cynnwys yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn foesegol a sut i ymdrin â materion moesegol anodd, gan gynnwys cyfle i drafod astudiaethau achos penodol yn y sector cyhoeddus a pha gamau y byddent yn eu cymryd. | Oliver Simms | Ystafell B |
| Sut mae bwyta eliffant? Y dull fesul cam o dyfu eich deallusrwydd emosiynol | Taith gyflym, llawn hwyl, trwy 4 cam Deallusrwydd Emosiynol – bydd y sesiwn yn arddangos un syniad gwerthfawr fesul cam gydag ymarfer, taflu syniadau.<br><br>Dyma'r 4 cam:<br>• Adborth hynod benodol<br>• Creu arferion da<br>• Manteision cwestiynau a gwrando | Andy Pope | Ystafell L |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Beth sy'n gwneud chwaraewr tîm da?' | | |
| Dysgu caru'r gair Methiant. | Mae methiant yn air sy'n ysgogi llawer o emosiynau. Mae'n ysgogi llwyddiant ond mae hefyd yn gallu arwain at bobl yn sgubo pethau o dan y carped. Bydd y sesiwn hon yn dehongli rhai o'n hadweithiau a'r hyn y gallwch chi ei wneud i garu'r gair Methiant a'i ddefnyddio i ysgogi dysgu a llwyddiant.<br>Mae manylion yr hyn y bydd Chris yn ymdrin ag ef ar gael mewn cyhoeddiad gan Academi: Cymryd Risgiau – sut mae gwneud methiant yn Ddiogel. | Chris Bolton | Ystafell K |
| **Siaradwr Ysgogol** | | | |
| Sut i sicrhau eich bod chi a'ch tîm yn cyflawni gwychder | **Disgrifiad**<br>Mae Jeff yn trafod sut mae gweithio mewn tîm, ac yn dal i gymryd perchnogaeth eithafol, | Jeff Smith | Ystafell Ymgynnull |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wedi mynd ag ef i frig y byd, a dyfarnu llwyddiannau iddo na all unrhyw un eu cyflawni ar ei ben ei hun.<br>**Gwersi Allweddol**<br>Sut i greu tîm cytbwys, a'i ddatblygu i wneud y mwyaf o'i botensial. Nodi rhwystrau a achosir gan ddiwylliant negyddol a sut i ailadeiladu sylfeini ar gyfer twf. Cyngor i Arweinwyr Tîm ddod yn fwy hyderus, feddu ar fwy o ffocws a bod yn bositif. Mae Pawb yn Cyflawni Mwy Ynghyd.<br>**Canlyniad**<br>Bydd y rhai sy'n mynychu yn dysgu sut i ddal eu timau a'u hunain yn atebol, i weithredu ar y cyd ac ysgogi eu hunain yn fwy penderfynol. | | |